

# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19 a 2019/20

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Mae Ysgol Aberconwy yn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yng Nghonwy ac yn rhan o GwE, sef Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru. Mae gan yr ysgol 796 o ddysgwyr ar y gofrestr: mae 18.5 y cant ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM); mae gan 30 y cant ohonynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae 1 y cant ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol; ac mae 15 y cant ohonynt yn ddysgwyr byd-eang gradd A\* ac A, sy'n cael eu hystyried yn fwy galluog a thalentog. Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 51 y cant o fechgyn a 49 y cant o ferched.

### Aelodau staff addysgu ac arweinwyr dynodedig

Mae gan y tîm arwain wyth aelod o staff a 19 o arweinwyr canol. Mae 54 o athrawon yn Ysgol Aberconwy, yn ogystal â 12 o gynorthwywyr dysgu.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Ar gyfer y cyfnod 2018/19 a 2019/20 cafodd yr ysgol £45,000.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

### Gweithio mewn clystyrau

Ariannodd y grant nifer o fentrau i ddatblygu technegau ymchwil, addysgeg a sgiliau hyfforddi, o fewn yr ysgol ac ar draws ei chwstwr.

Wrth drafod pecyn dysgu proffesiynol Ysgol Aberconwy, dywedodd Ian Gerrard, y Pennaeth:


'Yn Ysgol Aberconwy rydym wedi datblygu ein pecyn dysgu proffesiynol ar y cyd â'n hysgolion cynradd chwstwr. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu llais y disgybl gyda'n gilydd, ac mewn ymateb i'r safonau newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, ac mewn ymdrech i wella ansawdd addysgu, mae staff wedi hyfforddi'r holl athrawon mewn clystyrau cynradd mewn rhaglen Gwella Effeithiolrwydd Athrawon (TEEP). Mae hyn wedi darparu iaith gyffredin ar gyfer dysgu ac addysgu ar draws y chwstwr.'

Mae'r clwstwr bellach wedi symud ymlaen i ddatblygu grŵp o staff i hyrwyddo safonau uchel mewn dysgu ac addysgu yn yr holl ysgolion clwstwr, a datblygu cyfleoedd arweinyddiaeth i staff. Mae dau aelod o staff o bob ysgol gynradd wedi cael eu hyfforddi i TEEP Lefel 2, ynghyd â staff yn Ysgol Aberconwy. Bydd hyn yn galluogi staff i gadw proffil dysgu yn uchel ym mhob ysgol.

Aeth y staff hyn ati wedyn i ymchwilio i ffyrdd o werthuso arferion staff ac i rannu syniadau mewn ffordd fwy effeithlon ac maen nhw'n bwriadu defnyddio'r Gwasanaeth Rhyngwyneb Adrodd Gwybodaeth (IRIS) i rannu arfer dda ac adolygu syniadau ar draws y clwstwr, yn ogystal â darparu offeryn i'r holl staff ei ddefnyddio ar gyfer eu hunanfyfrio eu hunain. Mae'r staff wedi cael y cyfle i ymweld ag ysgolion eraill er mwyn archwilio arferion, datblygu syniadau ar gyfer y cwricwlwm a chynllunio ar gyfer ei gyflwyno.

## Cylch arloesi

Mae Ysgol Aberconwy hefyd wedi dyfeisio 'cylch arloesi' i ddatblygu technegau ymchwil y staff. Mae'r cylch hwn yn cynnwys y cyfnodau a ddangosir yn y diagram isod. Mae'r cyllid wedi cefnogi rhyddhau staff a hyfforddiant mewn technegau ymchwil.



## Effaith y grant ar staff ar draws yr ysgol

### Dysgu, addysgu a chynllunio

Mae'r grant wedi arwain at ffocws o'r newydd ar ddysgu, addysgu a chynllunio, gyda phwyslais ar gwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr. Ceir mwy o gydweithio ar lefel clwstwr. Mae pob ysgol yn defnyddio'r un iaith addysgegol wrth gynllunio a datblygu addysgu.

Mae polisi dysgu ac addysgu wedi'i ddatblygu gydag arweinwyr yr holl ysgolion. Mae hyn wedi galluogi'r sgwrs i ddatblygu ymhellach ac mae'n ganlyniad i'r ymchwil a wnaed gan staff Ysgol Aberconwy ac ysgolion cynradd.

Estynnwyd y polisi i ganolbwyntio ar waith cartref. Mae sgwrsiau yn digwydd gyda rhieni a gofawyr, llywodraethwyr a hefyd â'r dysgwyr eu hunain. Caiff syniadau eu gwerthuso ac mae ymarferwyr yn datblygu eu sgiliau cydweithio ac arweinyddiaeth drwy rannu ac yna arwain prosiectau drwy'r cyllid sydd ar gael iddyn nhw.

### **Arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol**

Mae prif ffocws 'Cylch Arloesi' Ysgol Aberconwy wedi'i wreiddio yn llinynnau 'dysgu proffesiynol' ac 'arweinyddiaeth' y safonau proffesiynol. Anogir staff i gymryd rhan mewn ymchwil a hefyd i ddatblygu'r sgiliau i wneud hyn yn effeithiol.

### **Effaith y grant ar ddysgwyr**

Mae dysgwyr wedi cymryd mwy o ran wrth gynllunio eu dysgu, gyda chefnogaeth syniadau o ymchwil y staff. Mae dysgwyr bellach yn deall y broses ddysgu yn well ac yn gallu dadansoddi eu cynnydd eu hunain. Mae hyn wedi golygu bod Ysgol Aberconwy yn datblygu dysgwyr mwy cyfrifol ac ymwybodol. Mae eu gallu i ddeall gwaith asesu ac asesu cyfoedion yn cael ei ddatblygu.

### **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol**

Dysgwyd gwersi ym mhob ysgol. Y cyntaf o'r rhain yw geirfa gyffredin a chyfres o amcanion. Y ffocws oedd rhoi dysgu ac addysgu wrth wraidd popeth a datblygu sgiliau'r holl staff. Mae hyn wedi galluogi ysgolion yn y clwstwr i dargedu arloesedd ar draws y clwstwr.

Mae angen i staff gael eu harwain a'u galluogi i ddatblygu eu hunain a chyfarwyddo eu dysgu a'u hymarfer eu hunain. Mae datblygu dull hyfforddi ac ymwreiddio athroniaeth ymchwil yn parhau ac mae angen cynllunio a hyfforddi gofalus.

### **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill**

Ar lefel ymarferol, fel ysgol hyfforddi TEEP, mae Ysgol Aberconwy yn gallu cynnig cyngor ac arweiniad ar effeithiolrwydd y rhaglen o ran cyflawni'r pedwar diben ar gyfer dysgwyr.

Wrth ystyried cyfleoedd Ysgol Aberconwy i rannu arferion gydag ysgolion eraill, dywedodd y pennaeth:

'Rydym yn gobeithio y gall ysgolion eraill ddysgu o'n profiad ni. Mae'r 'cylch arloesi' yr ydym wedi'i sefydlu i wella ymchwil yn hawdd ei drosglwyddo ac mae'n gyflwyniad syml i waith ymchwil.

Mae'n bwysig i ysgolion gydnabod bod cynllun cydlynol, sy'n canolbwyntio ar nifer fach o ddatblygiadau sydd wedi'u cynllunio'n dda ar draws gweithlu'r ysgol neu'r clwstwr, yn cael mwy o effaith na dull gwasgaredig o fentrau llai wedi'u targedu at unigolion. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod angen iaith, nodau a dibenion a rennir er mwyn gyrru'r agenda newid yn ei blaen ac er mwyn ymateb i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.'

Gellir dod o hyd i gynlluniau'r ysgol yn  
[www.aberconwy.conwy.sch.uk/school/general-info](http://www.aberconwy.conwy.sch.uk/school/general-info)

## Y camau nesaf

Bydd Ysgol Aberconwy:

- yn parhau i ddatblygu perthnasoedd gydag ysgolion eraill yn ei chlwstwr ac yn cydweithio i lunio polisi ac arfer i wella safonau. Mae'r ysgol yn cydnabod yr her sylweddol o baratoi ar gyfer y 'cwrwclwm newydd' ond mae wedi ymrwymo i ddysgu gyda'i gilydd drwy ymchwil, profiad a rennir a hyfforddiant
- yn rhannu canlyniadau'r 'cylch arloesi ' gydag aelodau eraill o'r clwstwr, ac yn datblygu sgiliau hyfforddi'r staff a gafodd eu hyfforddi yn TEEP Lefel 2 i hwyluso datblygiad pellach pob aelod o staff yn ei hysgolion
- yn datblygu ei dull o werthuso llwyddiant y prosiect TEEP drwy ddefnyddio IRIS. Y nod yw defnyddio technoleg i gofnodi a gweld arferion addysgu a gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant a'r ymchwil a ariennir gan y grant dysgu proffesiynol. Bydd y gwerthusiad hwn yn cael ei ddefnyddio i asesu ei heffeithiolrwydd wrth gysoni'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth o ran y pedwar diben, sut mae arfer wedi'i ddatblygu gan wariant y grant dysgu proffesiynol, ac i gynllunio datblygiad yn y dyfodol.